# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

**2019 dccc 4**

## RHAN 4

CYFFREDINOL

### 41 Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

Mae Atodlen 2 yn cynnwys diwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 41 mewn grym ar 11.9.2019, gweler **a. 44(1)(e)**

### 42 Pŵer i wneud darpariaeth ychwanegol i roi effaith lawn i'r Ddeddf hon

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddiben rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth o'r fath, cânt drwy reoliadau wneud—

(a) darpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig neu ddarpariaeth ganlyniadol;

(b) darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu fel arall unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys darpariaeth yn y Ddeddf hon).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 42 mewn grym ar 11.9.2019, gweler **a. 44(1)(e)**

### 43 Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon—

(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;

(b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

(2) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron **[**[F1]Senedd Cymru**]** ac wedi ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad—

(a) rheoliadau o dan adran 6(2);

(b) rheoliadau o dan adran 42(1) sy'n diwygio, yn diddymu neu'n addasu fel arall unrhyw ddarpariaeth mewn **[**[F2]Deddf gan Senedd Cymru**]** neu Fesur Cynulliad neu mewn Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.

(3) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan is-adran 42(1) yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan **[**[F3]Senedd Cymru**]**.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 43(2) wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(6)**

**F2** Geiriau yn Deddf wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(8)**

**F3** Geiriau yn a. 43(3) wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(6)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 43 mewn grym ar 11.9.2019, gweler **a. 44(1)(e)**

## 44 Y Ddeddf hon yn dod i rym

(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol—

(a) Rhan 1;

(b) adran 6(2) a (3);

(c) y darpariaethau eraill yn Rhan 2, i'r graddau y maent yn gymwys i'r Ddeddf hon;

(d) Rhan 3;

(e) y Rhan hon.

(2) I'r graddau nad yw wedi cael ei dwyn i rym gan is-adran (1), daw Rhan 2 i rym ar ddiwrnod a benodir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

(3) O ran gorchymyn o dan is-adran (2)—

(a) rhaid ei wneud drwy offeryn statudol;

(b) caiff gynnwys ddarpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 44 mewn grym ar 11.9.2019, gweler **a. 44(1)(e)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, RHAN 4. (See end of Document for details)*

## 45 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 45 mewn grym ar 11.9.2019, gweler **a. 44(1)(e)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, RHAN 4.